

PAGE 84

Minutes of the **remote Finance and General Purposes Meeting** held via Zoom video conferencing on, **Monday 29 March 2021** at 6.30 p.m.

PRESENT: - The Deputy Mayor Councillor Owen Hurcum (left the meeting 8-14pm)
Councillors : Les Day (Chair), Luke Tugwell, John Wynn Jones, Medwyn Hughes, Kieran Jones, Gareth Roberts, Gwynant Roberts, Nigel Pickavance, Enid Parry, Mair Rowlands (entered the meeting 6-58pm, left the meeting 8-30pm), Huw Wyn Jones (left the meeting 7-25pm), John Martin (left the meeting 8-19pm)

Officers:- Iwan Williams, City Director, Martin Hanks, Acting Town Clerk
Gwynfor Owen (Translator)

388/19 APOLOGIES

Apologies for absence were received from His Worship The Mayor Councillor John Wyn Williams and Councillor Elin Walker Jones.

389/19 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

Councillor John Wynn Jones declared that he helps to distribute 'Y Goriad' and therefore did not take part in Agenda Item 5 k) 'Goriad contribution'.

390/19 PUBLIC PARTICIPATION

None.

391/19 URGENT BUSINESS

None.

392/19 PROPOSALS FOR CONSIDERATION

Bangor Garth Pier

a) Pier lights

The Committee agreed that purchasing the lights would be a good investment and allows the Council to use the Pier as a landmark to acknowledge important dates and events throughout the year.

RESOLVED: The Committee agreed to purchase new lights for the Pier.

b) Pier signs, plaque & Sakura Trees plaques and information board

The Committee agreed that the proposed Information Board in Ashley Jones fields is too expensive to be considered at this time, and that sponsorship opportunities should be considered. Councillor John Wynn Jones suggested approaching The Trinity Foundation regarding this sponsorship opportunity.

The Committee also agreed that enquiries and requests from the public related to memorial benches and plaques should be discussed at the next Finance Committee meeting.

RESOLVED: The Committee agreed to purchase a plaque for the 125th year anniversary of the Pier in May 2021, and also agreed to purchase a plaque for the Sakura Trees in Ashley Jones fields.

RESOLVED: Enquiries from the public related to memorial benches and plaques, and the possibility of establishing a memorial wall, to be discussed at the next Finance Committee meeting.

c) Pier products proposal (Friends of Bangor Garth Pier (FGBP))

The Committee agreed that supporting this proposal could make a real difference on the Pier, and would give FGBP the means to sell products and help visitors through their volunteers, all for the benefit of the Pier and its Restoration Fund. The Committee also suggested that the Council could help provide some equipment/materials to FGBP.

RESOLVED: The Committee agreed to support the FGBP Pier products proposal, and utilise some of the 2021/22 budget to do so.

d) 'Feed the Menai Monster' Pier entrance proposal

The Committee suggested that this could be a joint project with FGBP, and that it could involve Bangor schools to design the 'monster' and name it.

e) Pier planks

The City Director informed the Committee that the Pier planks need treatment and maintenance. This work could be included in the next Heritage Lottery Fund (HLF) application for the Pier. The City Director updated the Committee on the HLF application and priorities going forward.

RESOLVED: Rather than assign specific budgets to the 'Feed the Menai Monster' and Pier planks proposals, the Committee agreed to grant the City Director £10,000 to spend on Pier-related items, including new signs, income generating proposals and maintenance issues. The City Director to report back to the Committee on progress.

RESOLVED: The City Director to look at the possibility of transferring Council items, equipment and infrastructure from the Pier to storage in Nantporth Stadium.

Christmas lights

h) New Christmas lights and trees

The Committee agreed that new Christmas lights should be purchased in partnership with Bangor First, with the High Street, Upper Bangor and possibly other areas considered for lights. The Council's Assets and Greening Committee could look at this project in further detail. The Committee also agreed that using the current Christmas lights and tree should also be considered.

RESOLVED: The Committee agreed to set aside £5,000 for Christmas lights and work in partnership with Bangor First on this project.

RESOLVED: The Committee agreed that the project should be discussed in further detail at the Assets and Greening Committee.

RESOLVED: The Committee agreed that using the current Christmas lights and tree should be done as much as possible, with Pendref a possible location.

Outdoor benches and maintenance

i) Friendship Bench

RESOLVED: The Committee agreed to purchase a second bench for Bangor. The City Director asked members to send suggestions for the bench location over the next week. The Committee supported the idea of working with Gwynedd Council to bring additional benches to Bangor through the project.

j) Grass cutting/maintenance

The City Director informed the Committee that very few quotations had been received from external contractors, and therefore it would be difficult to discuss the range of options on offer without this information. The Committee agreed that urgency is needed with this important issue ahead of the summer months, and that Bangor playgrounds should be prioritised. The possibility of allowing grass to grow in some green spaces, along with wild flowers, was also considered.

RESOLVED: The Committee agreed to grant the City Director £10,000 to spend on grass maintenance. This involves further discussions with contractors with the emphasis on securing the best deal possible. Any grass cutting arrangement needs to include grass collection. The City Director to report back to the Committee on progress.

k) Goriad contribution (Cllr John Wynn Jones did not take part in this agenda item)

The Committee agreed that it was important to support the local newspaper and its role in promoting the Welsh language in Bangor.

RESOLVED: The Committee agreed to grant £250 to 'Y Goriad'.

l) Council website upgrade/new build

The Committee agreed that the Council website needs an upgrade in order to improve its functionality. The City Director also suggested adding the FGBP weblink to the Council website.

RESOLVED: The Committee agreed to upgrade the Council website for £760. As part of the upgrade/new build, the Committee also agreed to remove members' home addresses from the website, and make it clear that any postal correspondence should be sent to Council offices.

RESOLVED: The Committee agreed to adding the FGBP weblink to the Council website.

m) Council Insurance Policy renewal

RESOLVED: The Committee agreed to renew the Council insurance policy for the forthcoming year 2021/22, with the caveat that the City Director reviews alternative options over the coming days. The

Committee agreed that the City Director undertakes urgent enquiries into a specialist marine insurance policy for the Pier for next year.

Arts and Culture

f) Frân Wen proposal to support 'Y Nyth'

RESOLVED: The Committee agreed to invite a Frân Wen representative to the next Finance Committee meeting to provide some details on how any financial support will be invested.

g) Bangor Arts Initiative to support 'Light Up Gwynedd'

RESOLVED: The Committee agreed to invite a Bangor Arts Initiative representative to the next Finance Committee meeting to provide some details on how any financial support will be invested.

393/19 FINANCE: INVOICES FOR PAYMENT

The City Director informed the Committee that invoices as detailed on the Schedule totalling £9524.51 had been approved by the Committee Chair.

RESOLVED: That the payments be noted.

394/19 COUNCIL STRUCTURE

The City Director informed the Committee that a paper is being worked on with the Acting Town Clerk and Committee Chair to draw up Terms of References for each committee, and that a new committee structure is agreed ahead of the Annual Meeting on 10th May. In order to help with the Terms of References and ensure that there is clear governance in place, the City Director invited members to take part in a small working group over the coming weeks. The City Director also suggested changes to the Council's meeting schedule for April 2021.

RESOLVED: Councillors Kieran Jones, Gwynant Roberts, Medwyn Hughes and Nigel Pickavance offered to join the Committee Chair on the working group. The City Director to email all members to inform them about the working group.

RESOLVED: The Council Planning Committee to meet on 19th April; the Assets and Greening Committee and Full Council to meet on 26th April.

The Meeting closed at 8.40pm

TUDALEN 84

Cofnodion y **Cyfarfod Cyllid ac Amcanion Cyffredinol o bell** a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom, nos **Lun 29 Mawrth 2021** am 6.30 p.m.

YN BRESENNOL: - Y Dirprwy Faer, Cynghorydd Owen Hurcum (gadawodd y cyfarfod 8-14pm)
Cynghorwyr : Les Day (Cadeirydd), Luke Tugwell, John Wynn Jones, Medwyn Hughes, Kieran Jones, Gareth Roberts, Gwynant Roberts, Nigel Pickavance, Enid Parry, Mair Rowlands (ymunodd â'r cyfarfod 6-58pm, gadawodd y cyfarfod 8-30pm), Huw Wyn Jones (gadawodd y cyfarfod 7-25pm), John Martin (gadawodd 8-19pm)

Swyddogion:- Iwan Williams, Cyfarwyddwr Dinesig, Martin Hanks, Clerc y Dref
Dros Dro; Gwynfor Owen (Cyfieithydd)

388/19 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd John Wyn Williams a'r Cynghorydd Elin Walker Jones.

389/19 DATGANIADAU O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd John Wynn Jones ei fod yn helpu i ddsbarthu'r 'Goriad' ac felly ni chymerodd ran yn Eitem Agenda 5 k) 'Cyfraniad i'r Goriad'.

390/19 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim.

391/19 MATERION BRYS

Dim.

392/19 CYNIGION I'W HYSTYRIED

Pier Garth Bangor

h) Goleuadau'r Pier

Cytunodd y Pwyllgor y byddai prynu'r goleuadau yn fuddsoddiad da ac mae'n caniatáu i'r Cyngor ddefnyddio'r Pier fel canolbwynt i nodi dyddiadau a digwyddiadau pwysig yn ystod y flwyddyn.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor i brynu goleuadau newydd i'r Pier.

i) Arwyddion i'r Pier, plac a phlaciau a bwrdd gwybodaeth am y Coed Sakura

Cytunodd y Pwyllgor fod y Bwrdd Gwybodaeth a gynigiwyd ar gyfer caeau Ashley Jones yn rhy ddrud i'w ystyried ar hyn o bryd, ac y dylid ystyried cyfleoedd am nawdd. Awgrymodd y Cynghorydd John Wyn Jones holi'r *Trinity Foundation* am hyn. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylai ymholiadau a cheisiadau gan y cyhoedd ynghylch meinciau a phlaciau er cof gael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor i brynu plac i nodi 125 mlwyddiant y Pier ym Mai 2021, a chytunwyd hefyd i brynu plac ar gyfer y Coed Sakura yng Nghaeau Ashley Jones.

PENDERFYNWYD: Ymholiadau a cheisiadau gan y cyhoedd ynghylch meinciau a phlaciau er cof, a'r posibilrwydd o osod wal er cof, i gael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid.

j) Cynnig am nwyddau'r Pier (Cyfeillion Pier Garth Bangor) (y *Cyfeillion*)

Cytunodd y Pwyllgor y gallai cefnogi'r cynnig hwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol ar y Pier, a byddai'n rhoi modd i'r Cyfeillion werthu nwyddau a helpu ymwelwyr drwy eu gwirfoddolwyr, y cyfan er budd y Pier a'r Gronfa Adfer. Awgrymodd y Pwyllgor hefyd y gallai'r Cyngor helpu i ddarparu rhywfaint o offer/deunyddiau i'r Cyfeillion.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor i gefnogi cynnig y Cyfeillion am nwyddau i'r Pier, a defnyddio rhywfaint o gyllideb 2021/2022 i wneud hynny.

k) Cynnig wrth fynedfa'r Pier 'Bwydo Bwystfil / Anghenfil Menai' (*Feed the Menai Monster*)

Awgrymodd y Pwyllgor y gallai hyn fod yn brosiect ar y cyd â'r Cyfeillion, ac y gellid cael ysgolion Bangor i gynllunio'r 'anghenfil' a'i enwi.

l) Estyll y Pier

Dywedodd y Cyfarwyddwr Dinesig wrth y Pwyllgor fod angen trin a chynnal a chadw estyll y Pier. Gellid cynnwys y gwaith hwn yn y cais nesaf i Gronfa Treftadaeth y Loteri i'r Pier. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Dinesig y diweddaraf i'r Pwyllgor am y cais a'r blaenoriaethau o hyn ymlaen.

PENDERFYNWYD: Yn hytrach na neilltuo cyllidebau penodol i 'Feed the Menai Monster' ac estyll y Pier, cytunodd y Pwyllgor i roi £10,000 i'r Cyfarwyddwr Dinesig i'w wario ar eitemau sy'n gysylltiedig â'r Pier, yn cynnwys arwyddion newydd, cynigion i greu incwm a materion cynnal a chadw. Y Cyfarwyddwr Dinesig i adrodd yn ôl ar gynnydd i'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD: Y Cyfarwyddwr Dinesig i archwilio'r posibilrwydd o drosglwyddo eitemau, offer a seilwaith o'r Pier i'w storio yn Stadiwm Nantporth.

Goleuadau Nadolig

h) Goleuadau a choed Nadolig newydd

Cytunodd y Pwyllgor y dylid prynu goleuadau Nadolig newydd mewn partneriaeth â Bangor yn Gyntaf, gan ystyried goleuo'r Stryd Fawr, Bangor Uchaf ac ardaloedd eraill o bosibl. Gallai Pwyllgor Asedau a Gwyrddio'r Cyngor edrych ar y prosiect hwn yn fwy manwl. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylid ystyried yn ogystal defnyddio'r goleuadau a'r goeden Nadolig bresennol.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor i neilltuo £5,000 ar gyfer goleuadau Nadolig a gweithio mewn partneriaeth â Bangor yn Gyntaf ar y prosiect hwn.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor y dylid trafod y prosiect yn fwy manwl yn y Pwyllgor Asedau a Gwyrddio.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor y dylid defnyddio'r goleuadau a'r goeden Nadolig sydd ganddynt yn barod, cyn belled ag y bo modd, gyda Pendref yn lleoliad posibl.

Meinciau a chynnal a chadw tu allan

ii) Mainc Gyfeillgarwch

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor i brynu ail fainc i Fangor. Gofynnodd y Cyfarwyddwr Dinesig i'r aelodau anfon awgrymiadau am leoliadau i'r fainc yn ystod yr wythnos nesaf. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r syniad o weithio gyda Chyngor Gwynedd i ddod â meinciau ychwanegol i Fangor drwy'r prosiect.

j) Torri gwair/cynnal a chadw

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Dinesig y Pwyllgor mai ychydig iawn o ddyfynbrisiau a dderbyniwyd gan gontractwyr allanol, ac felly byddai'n anodd trafod yr ystod o opsiynau oedd ar gael heb yr wybodaeth hon. Cytunodd y Pwyllgor fod angen gweithredu ar frys ar y mater pwysig hwn cyn misoedd yr haf, ac y dylid rhoi blaenoriaeth i lefydd chwarae Bangor. Ystyriwyd hefyd y posibilrwydd o adael i'r gwair dyfu, mewn rhai manau gwyrdd, gyda blodau gwyllt.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor i roi £10,000 i'r Cyfarwyddwr Dinesig i'w wario ar dorri gwair. Mae hyn yn golygu mwy o drafodaethau gyda chontractwyr gyda'r pwyslais ar sicrhau'r cytundeb gorau posibl. Mae angen i unrhyw drefniant i dorri'r gwair gynnwys casglu'r gwair. Y Cyfarwyddwr Dinesig i adrodd yn ôl ar gynnydd i'r Pwyllgor.

k) Cyfraniad i'r Goriad (Ni chymerodd y Cyng John Wynn Jones ran yn yr eitem hon) Cytunodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig cefnogi'r papur bro lleol a'i rôl mewn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ym Mangor.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor i roi cyfraniad o £250 i'r 'Goriad'.

l) Uwchraddio gwefan y Cyngor/adeiladu un newydd

Cytunodd y Pwyllgor fod angen uwchraddio gwefan y Cyngor er mwyn gwella'r ffordd mae'n gweithio. Awgrymodd y Cyfarwyddwr Dinesig ychwanegu dolen i dudalen Cyfeillion y Pier.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor i uwchraddio gwefan y Cyngor am £760. Fel rhan o'r uwchraddiad/adeiladu o'r newydd, cytunodd y Pwyllgor hefyd i dynnu cyfeiriadau cartref yr aelodau o'r wefan, a'i gwneud yn glir y dylai unrhyw lythyrau gael eu hanfon i swyddfeydd y Cyngor.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor i ychwanegu dolen Cyfeillion y Pier i wefan y Cyngor.

m) Adnewyddu Yswiriant y Cyngor

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor i adnewyddu polisi yswiriant y Cyngor am y flwyddyn sy'n dod 2021/22, ar yr amod fod y Cyfarwyddwr Dinesig yn edrych ar opsiynau gwahanol dros y

diwrnodau nesaf. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cyfarwyddwr Dinesig wneud ymholiadau brys ynghylch polisi yswiriant morol arbenigol i'r Pier ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Y Celfyddydau a Diwylliant

a) Cynnig Frân Wen i gefnogi 'Y Nyth'.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor i wahodd cynrychiolydd o'r Frân Wen i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid i roi manylion am sut fuasai unrhyw cefnogaeth ariannol yn cael ei fuddsoddi.

b) Cynllun Celfyddydau Bangor i gefnogi 'Goleuo Gwynedd'

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor i wahodd cynrychiolydd o Gynllun Celfyddydau Bangor i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid i roi manylion am sut fuasai unrhyw cefnogaeth ariannol yn cael ei fuddsoddi.

393/19 CYLLID: ANFONEBAU I'W TALU

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Dinesig y Pwyllgor fod anfonebau fel y manylwyd arnynt ar y rhestr oedd yn dod i gyfanswm o £9524.51 wedi'u cymeradwyo gan Gadeirydd y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD: Nodi'r taliadau.

394/19 STRWYTHUR Y CYNGOR

Dywedodd y Cyfarwyddwr Dinesig wrth y Pwyllgor ei fod yn gweithio ar bapur gyda Chlerc y Dref Dros Dro a Chadeirydd y Pwyllgor i lunio Cylch Gorchwyl i bob pwyllgor, ac y byddid yn cytuno ar strwythur pwyllgor newydd cyn y Cyfarfod Blynnyddol ar 10 Mai. Er mwyn helpu gyda'r Cylch Gorchwyl a sicrhau fod llywodraethiant clir yn ei le, gwahoddodd y Cyfarwyddwr Dinesig yr aelodau i gymryd rhan mewn gweithgor bach dros yr wythnosau nesaf. Hefyd awgrymodd y Cyfarwyddwr Dinesig newidiadau i drefn cyfarfodydd y Cyngor ym mis Ebrill 2021.

PENDERFYNWYD: Cynigiodd y Cynghorwyr Kieran Jones, Gwynant Roberts, Medwyn Hughes a Nigel Pickavance ymuno â Chadeirydd y Pwyllgor ar y gweithgor. Bydd Cyfarwyddwr y Ddinas yn anfon e-bost i'r aelodau i gyd i'w hysbysu am y gweithgor.

PENDERFYNWYD: Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor i gyfarfod ar 19 Ebrill; y Pwyllgor Asedau a Gwyrddio a'r Cyngor Llawn i gyfarfod ar 26 Ebrill.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.40pm

